Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr

Chwaraeon Cymru

Apwyntiad Cadeirydd

Dyddiad cau: 13 Hydref 2021

Contents

	Tudalen
Gwneud cais	**3-4**
Atodiad A: Rôl a chyfrifoldebau Chwaraeon Cymru	**5**
Atodiad B: Rôl Cadeirydd	**6-10**
Atodiad C: Y broses ddethol	**11-12**

Gwneud cais

Diolch am eich diddordeb mewn penodi Cadeirydd Chwaraeon Cymru. Mae'r Atodiadau atodedig yn rhoi manylion am rôl y Cadeirydd a manyleb y person, rôl a chyfrifoldebau Chwaraeon Cymru, a'r broses ddethol.

I wneud cais, ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru yma Penodiadau Cyhoeddus - (tal.net)

I wneud cais am y swydd hon, cliciwch ar swydd wag y Cadeirydd a chliciwch ar 'Gwneud cais' ar y gornel chwith isaf.

Y tro cyntaf y byddwch yn gwneud cais am swydd, bydd angen i chi lenwi ffurflen gofrestru ar gyfer system ymgeisio ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y bydd angen i chi gofrestru, a byddwch yn gallu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am gynnydd eich cais, ac unrhyw geisiadau eraill a wnewch, drwy eich cyfrif cofrestredig.

Ar ôl i chi gofrestru, byddwch yn gallu cael mynediad i'r ffurflen gais. I wneud cais bydd angen i chi lanlwytho datganiad personol a CV i'r adran 'Rhesymau dros wneud cais' ar y ffurflen gais ar-lein.

Datganiad Personol

Y datganiad personol yw eich cyfle i ddangos sut rydych yn bodloni pob un o'r meini prawf a nodir yn y fanyleb person. Chi sy'n penderfynu sut rydych chi'n dewis cyflwyno'r wybodaeth. Fodd bynnag, dylech anelu at ddarparu enghreifftiau manwl sy'n dangos sut mae eich gwybodaeth a'ch profiad yn cyfateb i bob un o'r meini prawf, ac sy'n disgrifio beth oedd eich swydd o ran cyflawni canlyniad penodol. Bydd hefyd o fudd i'r panel dethol os gallwch fod yn glir pa dystiolaeth benodol a ddarperir gennych sy'n ymwneud â pha feini prawf. Mae darparu paragraffau ar wahân mewn perthynas â phob maen prawf yn arfer cyffredin.

Cyfyngwch eich datganiad personol i ddwy dudalen. Efallai y bydd eich cais yn cael ei wrthod os byddwch yn mynd y tu hwnt i'r terfyn hwn.

CV

Sicrhewch fod eich CV yn cynnwys manylion byr am eich swydd bresennol neu ddiweddaraf a'r dyddiadau y gwnaethoch ddechrau'r swydd hon. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol yn y gorffennol neu'r presennol.

Amserlen ddangosol

Dyddiad cau: 13 Hydref 2021

Rhestr fer: Tachwedd/Rhagfyr 2021

Cyfweliadau: Ionawr 2022

Penodiad: Mawrth 2022

Datganiad Amrywiaeth

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai cyrff cyhoeddus gael Aelodau Bwrdd sy'n adlewyrchu cymdeithas Cymru - pobl o bob cefndir - i'w helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud penderfyniadau gwell. Dyna pam mae Llywodraeth Cymru yn annog ystod eang ac amrywiol o unigolion i wneud cais am benodiadau i gyrff cyhoeddus. Croesewir ceisiadau'n arbennig gan bob grŵp heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys menywod, pobl o dan 30 oed, pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, pobl anabl, pobl hoyw, deurywiol a thrawsrywiol.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Adlewyrchu Cymru wrth Redeg Cymru: ei Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus yng Nghymru (2020-2023)' yn 2020. Nod y strategaeth hon yw gwneud Cymru'n esiampl o ran ailddosbarthu cyfalaf diwylliannol a meithrin holl ddoniau Cymru, drwy adlewyrchu Cymru wrth redeg Cymru.

Hyderus o ran Anabledd

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y diffiniad cymdeithasol o anabledd, lle cydnabyddir bod rhwystrau mewn cymdeithas yn analluogi pobl sydd â nam neu gyflyrau iechyd neu sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain. Rydym wedi ymrwymo i ddileu rhwystrau fel y gall pob aelod o staff berfformio ar eu gorau. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn defnyddio'r diffiniad meddygol o anabledd ("nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd").

Rydym yn gwarantu cyfweld ag unrhyw un sy'n anabl y mae ei gais yn bodloni'r meini prawf gofynnol ar gyfer y swydd. Yn ôl 'meini prawf gofynnol' rydym yn golygu bod yn rhaid i chi roi tystiolaeth i ni yn eich cais sy'n dangos eich bod yn gyffredinol

yn bodloni lefel y cymhwysedd ar gyfer y rôl ac unrhyw gymwysterau, sgiliau neu brofiad a ddiffinnir fel rhai hanfodol.

Os hoffech gyfweliad gwarantedig, cysylltwch â publicappointments@llyw.cymru

Os oes gennych nam neu gyflwr iechyd, neu'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain ac angen trafod addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw ran o'r broses recriwtio hon, cysylltwch â publicappointments@llyw.cymru cyn gynted â phosibl a bydd aelod o'r tîm yn cysylltu â chi i drafod eich gofynion ac unrhyw gwestiynau sydd gennych.

Cysylltiadau:

I gael rhagor o wybodaeth am y rôl, cysylltwch â Jason Thomas, Cyfarwyddwr Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, Llywodraeth Cymru

Ffôn: 03000256030

Ebost: Jason.Thomas@llyw.cymru

Os oes angen rhagor o gymorth arnoch i wneud cais am y swydd hon, cysylltwch â Desg Gymorth Canolfan Cydwasanaethau Corfforaethol Llywodraeth Cymru ar 029 2082 5454 neu desggymorthcydwasanaethau@llyw.cymru
neu publicappointments@llyw.cymru.

Atodiad A

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Rôl a Chyfrifoldebau Chwaraeon Cymru

Chwaraeon Cymru yw'r sefydliad cenedlaethol sy'n gyfrifol am ddatblygu a hyrwyddo chwaraeon a ffyrdd egnïol o fyw. Mae Chwaraeon Cymru yn Gorff Cyhoeddus a Noddir gan Lywodraeth Cymru ac mae'n cael ei ariannu'n bennaf gan gymorth grant Llywodraeth Cymru. Mae hefyd yn gyfrifol am ddosbarthu arian o'r Loteri Genedlaethol i chwaraeon yng Nghymru.

Sefydlwyd Chwaraeon Cymru drwy Siarter Frenhinol ym 1972. Y pedwar amcan a bennwyd pan gafodd Cyngor Chwaraeon Cymru (sydd bellach yn masnachu fel Chwaraeon Cymru) ei sefydlu oedd:

- Cynyddu cyfranogiad mewn chwaraeon a hamdden egnïol;
- Codi safonau perfformiad a rhagoriaeth;
- Gwella'r ddarpariaeth o gyfleusterau chwaraeon;
- Darparu gwybodaeth a chyngor technegol am chwaraeon, hamdden a ffyrdd egnïol o fyw.

Mae'r Siarter Frenhinol lawn i'w gweld yma Sport Wales Documents | Chwaraeon Cymru

Mae Chwaraeon Cymru yn gweithredu dwy ganolfan genedlaethol: Sefydliad Chwaraeon Cymru yng Nghaerdydd, a Chanolfan Chwaraeon Dŵr Cenedlaethol Plas Menai ger Caernarfon.

Caiff blaenoriaethau gweithredol a thargedau perfformiad Chwaraeon Cymru eu llywio gan y llythyr cylch gwaith gan Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon,

gan ymateb iddo, ac mae'n nodi blaenoriaethau strategol, unrhyw bolisïau a chynlluniau gweithredu penodol, a pholisïau a blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru.

Mae Chwaraeon Cymru yn cefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cenedl gorfforol egnïol sy'n mwynhau chwaraeon, a'i nod yw gwella lefel cyfranogiad chwaraeon ar lawr gwlad ond hefyd roi'r cymorth sydd ei angen ar ein hathletwyr uchelgeisiol i gystadlu'n llwyddiannus ar lwyfan y byd.

Nodir polisïau a blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru yn ein Rhaglen Lywodraethu (Rhaglen Lywodraethu | LLYW. CYMRU) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn gosod y fframwaith y sefydlir nodau penodol Chwaraeon Cymru yn ei erbyn, ac yn ei gwneud yn ofynnol iddo integreiddio ei holl waith i gefnogi pob un o'r saith nod llesiant yn ogystal â phum elfen lywodraethu'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am Chwaraeon Cymru drwy fynd i www.chwaraeon.cymru

ATODIAD B

Rôl HOLL Aelodau Bwrdd Chwaraeon Cymru

Mae Bwrdd Chwaraeon Cymru yn rhoi arweiniad ac yn llywodraethu Chwaraeon Cymru ac yn cyflawni'r rôl bwysig o graffu ar holl fuddsoddiadau a gweithgareddau Chwaraeon Cymru. Mae hefyd yn llunio ei nodau yn y dyfodol.

Mae gan Aelodau'r Bwrdd gyfrifoldeb unigol a chyfunol i Lywodraeth Cymru drwy Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon.

RÔL CADEIRYDD

Byddwch yn atebol i'r Dirprwy Weinidog dros y Celfyddydau a Chwaraeon ar gyfer Chwaraeon Cymru ac am gyflawni blaenoriaethau strategol. Mae datblygu a chynnal perthynas agos â'r Dirprwy Weinidog ac aelodau allweddol o Lywodraeth Cymru yn rhan hanfodol o rôl y Cadeirydd.

Arweinyddiaeth

• Rhoi arweiniad effeithiol i Chwaraeon Cymru a'i Fwrdd, diffinio a datblygu ei gyfeiriad strategol a chynrychioli barn y Bwrdd i'r cyhoedd.

• Gweithio gydag aelodau eraill i gyflawni swyddogaethau'r Bwrdd a fydd yn cynnwys:

o Cyflawni cynllun corfforaethol/busnes y Bwrdd mewn ymateb i Lythyr Cylch Gwaith Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon.

o Sicrhau bod trefniadau llywodraethu'n gadarn a bod cywirdeb a phriodoldeb yng ngwaith Chwaraeon Cymru.

o Gweithredu polisïau a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru gan gynnwys materion cyfle cyfartal ac amrywiaeth, drwy weithio gyda rhanddeiliaid allweddol i sicrhau dull integredig o ddarparu chwaraeon yng Nghymru.

o Manteisio i'r eithaf ar y manteision o ddigwyddiadau chwaraeon cenedlaethol a rhyngwladol proffil uchel mawr trwy ddarparu etifeddiaeth chwaraeon gynaliadwy.

o Mynd i'r afael ag anghenion chwaraeon yn genedlaethol ac yn lleol, gan gymryd cyfrifoldeb am benderfynu sut y caiff adnoddau eu defnyddio i fodloni amcanion strategol Chwaraeon Cymru.

o Cefnogi ymdrechion Llywodraeth Cymru i gynyddu lefelau gweithgarwch corfforol ledled poblogaeth Cymru.

Perthynas â'r Prif Weithredwr

• Sefydlu ac adeiladu perthynas waith gref, effeithiol a chefnogol gyda'r Prif Weithredwr, gan ddarparu cymorth a chyngor tra'n parchu cyfrifoldeb gweithredol;

• Cynnal arfarniad blynyddol i sicrhau bod y Prif Weithredwr yn cael ei ddal i gyfrif am gyflawni amcanion strategol y cytunwyd arnynt. Darparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu perthnasol.

Llywodraethu

• Sicrhau bod y trefniadau llywodraethu yn gweithio yn y ffordd fwyaf effeithiol.

• Adeiladu Bwrdd effeithiol, creu newid a chynllunio olyniaeth ar gyfer penodiadau'r Bwrdd drwy broses a reoleiddir gan OCPA;

• Ymgynghori'n flynyddol ag aelodau'r Bwrdd a'u gwerthuso ar eu rolau ac asesu eu perfformiad;

• Cynllunio, llywyddu a hwyluso cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau;

• Sicrhau ymrwymiad Chwaraeon Cymru i gydraddoldeb ac amrywiaeth.

Cyfathrebu a Chysylltiadau Allanol

• Gweithredu fel llysgennad i Chwaraeon Cymru

• Hyrwyddo perthynas effeithiol rhwng aelodau anweithredol, y tîm gweithredol a staff Chwaraeon Cymru;

• Datblygu, rheoli a chynnal perthynas dda â phartïon â diddordeb yn genedlaethol ac yn lleol. Mae partïon â diddordeb yn cynnwys:

o Llywodraeth Cymru

o Cyrff Llywodraethu Chwaraeon

o Cymdeithasau Chwaraeon

o awdurdodau lleol

o cymunedau lleol

o y sector busnes

o y sector gwirfoddol

o cynrychiolwyr cymunedol etholedig

o y cyfryngau

MANYLEB PERSON

Hanfodol

• Profiad o arwain sefydliad proffil uchel ac yn gallu darparu dilyniant a sefydlogrwydd i sefydliad.

• Dealltwriaeth o fanteision chwaraeon a gweithgarwch corfforol ar bob lefel a gwybodaeth dda am y dirwedd chwaraeon yng Nghymru.

• Sgiliau cyfathrebu cryf gyda'r gallu i feithrin perthynas briodol â'r holl randdeiliaid, gan gynnwys Gweinidogion a'r Llywodraeth, Aelodau'r Bwrdd, y wasg a'r cyfryngau, gan ddefnyddio amrywiaeth o safbwyntiau a phrofiad byw fel y bo'n briodol.

• Dealltwriaeth dda o fywyd cyhoeddus Cymru a pholisïau a gwerthoedd Llywodraeth Cymru, er mwyn arwain sefydliad sy'n cyflawni'n effeithiol i Weinidogion Cymru

• Meddu ar sgiliau craffu a dadansoddi rhagorol i gefnogi a herio'r Bwrdd Gweithredol yn effeithiol, er mwyn sicrhau bod Chwaraeon Cymru yn cyflawni ei nodau, ei amcanion a'i dargedau perfformiad;

• Y gallu i gyflawni strategaeth sefydledig, gan gefnogi gwerthoedd ac ymddygiad Llywodraeth Cymru a Chwaraeon Cymru, gan gynnwys ymrwymiad cryf i egwyddorion Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol;

• Gweithredu mewn ffordd sy'n hyrwyddo safonau uchel o ran priodoldeb a chyllid cyhoeddus, gan sicrhau bod Chwaraeon Cymru yn sicrhau gwerth am arian o fewn fframwaith o arfer gorau;

• Arwain y broses gynllunio gorfforaethol, gan gynnwys cytuno ar gynlluniau cyllidebol blynyddol ar gyfer rhaglenni gweithredol a gweithgareddau corfforaethol;

• Meddu ar ddealltwriaeth ac ymrwymiad clir i "Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus" Nolan;

• Wedi ymrwymo i arweinyddiaeth gynhwysol ac arwain drwy esiampl mewn ffordd sy'n parchu ac yn hyrwyddo amrywiaeth a chyfle cyfartal. Y gallu i arwain a meithrin Bwrdd cynhwysol ac amrywiol.

Dymunol

Byddem yn croesawu ymgeiswyr sydd â phrofiad mewn maes cysylltiedig, megis iechyd, datblygu cymunedol neu addysg.

Sut bydd manyleb y person a'r meini prawf hanfodol yn cael eu hasesu?

Manyleb / Meini Prawf	Cais	Sesiwn rhanddeiliad	Cyfweliad	Gwrandawiad cyn penodi
Profiad o arwain sefydliad proffil uchel a gallu darparu dilyniant a sefydlogrwydd i sefydliad.	✔		✔	✔
Dealltwriaeth o fanteision chwaraeon a gweithgarwch corfforol ar bob lefel a gwybodaeth dda am y cyd-destun chwaraeon yng Nghymru.	✔	✔	✔	✔
Sgiliau cyfathrebu cryf gyda'r gallu i feithrin perthynas waith strategol â'r holl randdeiliaid, gan gynnwys Gweinidogion a'r Llywodraeth, Aelodau'r Bwrdd, y wasg a'r cyfryngau, gan ddefnyddio amrywiaeth o safbwyntiau a phrofiad byw fel y bo'n briodol.	✔	✔	✔	✔
Dealltwriaeth dda o fywyd cyhoeddus Cymru a pholisïau a gwerthoedd Llywodraeth Cymru, er mwyn arwain sefydliad i gyflawni'n effeithiol ar gyfer Gweinidogion Cymru.	✔	✔	✔	✔
Meddu ar sgiliau craffu a dadansoddi rhagorol i gefnogi a herio'r Bwrdd Gweithredol yn effeithiol, er mwyn sicrhau bod Chwaraeon Cymru yn cyflawni ei nodau, ei amcanion a'i dargedau perfformiad;	✔		✔	
Y gallu i gyflawni strategaeth sefydledig, gan gefnogi gwerthoedd ac ymddygiad Llywodraeth Cymru a Chwaraeon Cymru, gan gynnwys ymrwymiad cryf i egwyddorion Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.	✔	✔	✔	✔
Gweithredu mewn ffordd sy'n hyrwyddo safonau uchel o ran priodoldeb a chyllid cyhoeddus, gan sicrhau bod Chwaraeon Cymru yn cael gwerth am arian o fewn fframwaith o arfer gorau.	✔	✔	✔	✔
Arwain y broses cynllunio corfforaethol, gan gynnwys cytuno ar gynlluniau cyllidebol blynyddol ar gyfer rhaglenni gweithredol a gweithgareddau corfforaethol.		✔	✔	
Meddu ar ddealltwriaeth ac ymrwymiad clir i "Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus" Nolan.	✔		✔	✔

Wedi ymrwymo i arweinyddiaeth gynhwysol ac arwain drwy esiampl mewn ffordd sy'n parchu ac yn hyrwyddo amrywiaeth a chyfle cyfartal. Y gallu i arwain a meithrin Bwrdd cynhwysol ac amrywiol.	✔	✔	✔	✔

Yr Iaith Gymraeg

Ystyrir bod y Gymraeg yn Ddymunol ar gyfer rôl y Cadeirydd, ar y lefel a bennir isod:

Deall – yn gallu deall rhannau o sgwrs sylfaenol.

Darllen – dim sgiliau

Siarad – yn gallu cynnal sgwrs sylfaenol yn y Gymraeg

Ysgrifennu – dim sgiliau.

Mae hyn yn golygu y byddai'n fantais i ymgeiswyr ddeall a siarad rhannau o sgwrs sylfaenol yn y Gymraeg pe bai'r holl feini prawf hanfodol eraill wedi'u bodloni.

Tymor Penodi

Bydd y penodiad yn cael ei wneud gan Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip ar ran Llywodraeth Cymru. Mae penodiadau fel arfer am gyfnod o dair blynedd, a gellir eu hailbenodi am un tymor tair blynedd arall. Caiff perfformiad Aelodau'r Bwrdd ei adolygu'n flynyddol gan y Cadeirydd.

Cyfarfodydd Bwrdd

Ar hyn o bryd, mae Bwrdd Chwaraeon Cymru yn cyfarfod o leiaf bum gwaith y flwyddyn, a darperir yr Ysgrifenyddiaeth yng nghyfarfodydd y Bwrdd gan staff Chwaraeon Cymru. Mae gan y Bwrdd hefyd nifer o weithgorau a phaneli cynghori.

Cymhwysedd

Dylai ymgeiswyr fod yn bobl sy'n ymddwyn bob amser mewn modd a fydd yn cynnal hyder y cyhoedd.

Yn benodol, mae'n ofynnol i ymgeiswyr ddatgan a ydynt yn ymwybodol o unrhyw beth yn eu bywyd preifat neu broffesiynol a fyddai'n embaras iddynt hwy eu hunain neu i Lywodraeth Cymru pe bai'n dod yn hysbys pe byddent yn cael eu penodi.

Dylai ymgeiswyr nodi hefyd bod eistedd ar fwrdd Chwaraeon Cymru yn swydd sy'n eu gwneud yn anghymwys ar gyfer bod yn aelod o'r Senedd o dan Orchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020.

Ymrwymiad Amser

Bydd disgwyl i'r Cadeirydd fod ar gael i weithio dau ddiwrnod yr wythnos.

Taliadau

Bydd swydd y Cadeirydd yn cael ei thalu £337 y dydd. Gellir hawlio costau teithio a threuliau rhesymol eraill yr eir iddynt wrth gyflawni'r rôl gan Chwaraeon Cymru o fewn terfynau cydnabyddedig. Efallai y byddwch hefyd yn gymwys i hawlio ad-daliad am gostau mewn perthynas â gofal plant/gofal yr henoed/gofalwr cynorthwyol wrth wneud gwaith ar ran y Bwrdd.

Cymorth i Aelodau Anabl

Lle bo angen, gwneir pob addasiad rhesymol i alluogi aelodau i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol.

Gwrthdaro Buddiannau

Gofynnir i chi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai, neu y tybir eu bod, yn gwrthdaro â rôl a chyfrifoldebau Cadeirydd Chwaraeon Cymru, gan gynnwys unrhyw fuddiannau busnes a swyddi o awdurdod ar wahân i'r rôl yn Chwaraeon Cymru.

Bydd unrhyw wrthdaro buddiannau yn cael eu harchwilio yn y cyfweliad. Os cewch eich penodi, bydd gofyn i chi hefyd ddatgan y buddiannau hyn ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd.

Diwydrwydd Dyladwy

Bydd Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn cynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy ar bob ymgeisydd a fydd wedi'i sifftio'n llwyddiannus i gyfweliad. Bydd hyn yn cynnwys, ond nid o reidrwydd yn gyfyngedig i chwiliadau ar y cyfryngau cymdeithasol a'r Rhyngrwyd. O ganlyniad, efallai y gofynnir cwestiynau i chi yn y cyfweliad mewn perthynas ag unrhyw ganfyddiadau diwydrwydd dyladwy.

Safonau mewn bywyd cyhoeddus

Bydd disgwyl i chi ddangos safonau uchel o ymddygiad corfforaethol a phersonol fel yr amlinellir yn saith egwyddor bywyd cyhoeddus (Egwyddorion Nolan) https://www.gov.uk/government/publications/the-7-principles-of-public-life

Hyfforddiant Sefydlu

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael cyfnod ymsefydlu llawn gan Chwaraeon Cymru.

ATODIAD C

Y BROSES DDETHOL

1. Bydd y panel asesu yn asesu CV ymgeiswyr a datganiadau personol. Bydd y panel asesu yn asesu ceisiadau ymgeiswyr, CV a datganiadau personol i benderfynu pwy y mae'n credu sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y rôl orau, a fydd yn cael eu gwahodd i gyflwyno sesiwn rhanddeiliaid ac yna i gyfweliad. Yn ystod y cam sifftio cychwynnol, bydd y panel yn dibynnu'n llwyr ar yr wybodaeth a ddarperir gennych yn eich cais, CV a datganiad i benderfynu a ydych yn symud ymlaen i gam nesaf y broses. Sicrhewch eich bod yn darparu tystiolaeth i gefnogi manyleb y person a sut rydych yn bodloni'r holl feini prawf hanfodol.

Gwahoddir ymgeiswyr ar y rhestr fer i arwain sesiwn rhanddeiliaid, a fydd yn cynnwys cyflwyniad, a sesiwn holi ac ateb. Bydd perfformiad ymgeiswyr yn y sesiwn rhanddeiliaid yn cael ei sgorio a bydd yr wybodaeth hon yn cael ei rhannu gyda'r panel cyfweld.

2. Bydd y panel asesu yn cynnwys:

Jason Thomas, Cyfarwyddwr, Diwylliant Chwaraeon a Thwristiaeth, Llywodraeth Cymru

Tracey MyHill, Uwch Aelod Annibynnol o'r Panel

Jayne Ludlow Aelod Annibynnol o'r Panel gydag arbenigedd yn y sector

3. Yn amodol ar nifer y ceisiadau a dderbyniwyd, gall eich cais fod ar y "rhestr hir" cyn iddo gael ei drosglwyddo i'r panel asesu i'w ystyried. Dylech fod yn ymwybodol, yn y sefyllfa hon, efallai na fydd eich cais yn cael ei ystyried yn llawn gan y panel cyfan.

4. Rydym yn rhagweld y bydd y panel, erbyn mis Tachwedd 2021, wedi penderfynu pwy fydd ar y rhestr fer ac yn cael eu gwahodd i gynnal sesiwn rhanddeiliaid ac yna i'w cyfweld ym mis Ionawr 2021.

5. Bydd y panel yn rhoi'r rhestr fer o'r ymgeiswyr cryfaf, y rhai sydd wedi dangos eu bod yn bodloni manyleb y person a'r meini prawf hanfodol fel y'u nodir yn y pecyn hwn. Fodd bynnag, os ydych wedi gwneud cais o dan y cynllun cyfweliad gwarantedig ac os ydych yn bodloni'r meini prawf hanfodol gofynnol ar gyfer y swydd, yna cewch eich gwahodd i gyfweliad hefyd.

Os ydych ar y rhestr fer ac nad yw'r sesiynau rhanddeiliaid a'r dyddiadau cyfweld eisoes wedi'u darparu yn y pecyn gwybodaeth hwn, byddwn yn anelu at roi cymaint o rybudd ag y gallwn i chi. Efallai na fydd yn bosibl ail-drefnu dyddiadau cyfweliadau oherwydd argaeledd y panel a chyfyngiadau amser yr amserlen benodi.

Byddwch yn derbyn gohebiaeth e-bost o'r system Penodi i roi gwybod i chi p'un a ydych wedi cyrraedd y rhestr fer ai peidio.

6. Os cewch eich gwahodd i gyfweliad, bydd y panel yn eich holi am eich sgiliau a'ch profiad, gan ofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn bodloni'r meini prawf a nodir ar gyfer y swydd.

7. Bydd ymgeiswyr y mae'r panel yn credu eu bod yn 'rhai y gellir eu penodi' yn cael eu hargymell i'r Dirprwy Weinidog a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ar ymgeisydd a ffefrir. Gall y Dirprwy Weinidog ddewis cwrdd ag ymgeiswyr y gellir eu penodi cyn gwneud penderfyniad. Bydd unrhyw gyfarfodydd ym mhresenoldeb cadeirydd y panel neu eu cynrychiolydd enwebedig. Bydd ymgeiswyr sydd wedi cael eu cyfweld yn cael gwybod am hynt eu cais.

8. Mae Gweinidogion Cymru a Senedd Cymru wedi cytuno i gyflwyno gwaith craffu cyn penodi ar benodiadau gweinidogol o bwys gan Lywodraeth Cymru gan bwyllgor perthnasol Senedd Cymru er mwyn gwella ymhellach y gwaith o graffu ar y broses benodi gyhoeddus a'i thryloywder. Gan fod hyn yn cael ei ystyried yn benodiad cyhoeddus o bwys, cam olaf y broses benodi fydd gwrandawiad cyn penodi, lle bydd yr ymgeisydd a ffefrir gan y Dirprwy Weinidog yn ymddangos gerbron y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol.

9. Os nad ydych yn llwyddiannus yn y sifft neu yn y cyfweliad, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod i chi. Rydym yn gwerthfawrogi ei bod yn cymryd llawer o amser ac ymdrech i wneud cais am swyddi, ac mae adborth yn rhan werthfawr o'r

broses. O ganlyniad, bydd y llythyr yn rhoi manylion pwy y gallwch gysylltu â hwy i gael adborth ar eich cyfweliad a'ch cais, os ydych yn dymuno gwneud hynny.

Ymholiadau

10. Ar gyfer ymholiadau am eich cais, cysylltwch â publicappointments@gov.cymru.

Os nad ydych yn gwbl fodlon

11. Bydd Llywodraeth Cymru yn anelu at brosesu pob cais cyn gynted â phosibl ac i drin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os oes gennych unrhyw gwynion am y ffordd yr ymdriniwyd â'ch cais, cysylltwch â publicappointments@gov.cymru.